

# Adroddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Bil yr Amgylchedd

Medi 2021

## Casgliadau ac argymhellion cyffredinol

### **Gwaith craffu'r Senedd ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol**

Mae'r broses cydsyniad deddfwriaethol yn cynnwys gofyn i'r Senedd gytuno i Senedd y DU ddeddfu ar ei rhan mewn meysydd cymhwysedd datganoledig. Ni ddylid tanddatgan yr angen am graffu digonol ar unrhyw gynigion o'r fath.

Roedd yr amserlen graffu gychwynnol yn rhoi un cyfarfod i'r Pwyllgor hwn ystyried y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cyn cyflwyno adroddiad. Roedd yn afresymol ac yn anymarferol. Er bod y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad wedi'i ymestyn, roedd yn parhau i fod yn annigonol, yn enwedig o ystyried maint a chymhlethdod Bil y DU.

Mae Bil y DU yn gwneud darpariaethau sylweddol ar gyfer Cymru ym meysydd allweddol polisi amgylcheddol ac yn cynnwys pwerau llunio rheoliadau eang i Weinidogion Cymru. Er mwyn galluogi'r Senedd i wneud penderfyniad hyddysg ar gydsyniad deddfwriaethol, rhaid i Lywodraeth Cymru egluro'r darpariaethau'n llawn, ei rhesymau dros eu gwneud ym Mil y DU a'i bwriadau polisi. Mae'r Memorandwm yn methu yn hyn o beth - mae'n anghyflawn ac mae diffyg manylion. Er bod y Gweinidog wedi ymdrin â'r materion hyn i raddau mewn tystiolaeth inni, byddem wedi disgwyl i'r wybodaeth hon fod ar gael i'r Senedd o'r cychwyn cyntaf.

Mae cyfle ar ddechrau'r Chweched Senedd i adolygu'r broses Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol i sicrhau ei bod yn addas at y diben. Dylai'r Pwyllgor Busnes fodloni ei hun bod yr arfer cyfredol o ddarparu o leiaf chwe wythnos eistedd ar gyfer gwaith craffu pwyllgorau yn ymarferol o fewn amserlen lle mae pwyllgorau polisi yn cyfarfod bob pythefnos. Dylai hefyd ystyried a oes angen cryfhau gofynion y Rheolau Sefydlog mewn perthynas â'r wybodaeth a



ddarperir mewn Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol er mwyn galluogi'r Senedd i wneud penderfyniadau gwybodus ar gydsyniad.

## Defnyddio Bil y DU i wneud darpariaethau ar gyfer Cymru

Gwnaeth Llywodraeth Cymru benderfyniad yn y Bumed Senedd i ddefnyddio Bil y DU i ddeddfu mewn meysydd allweddol polisi amgylcheddol. Ers hynny, mae Bil y DU wedi bod yn destun oedi sylweddol. Y cyfle nesaf sydd ar gael i Lywodraeth Cymru ddeddfu ar bolisi amgylcheddol fydd drwy Fil Llywodraethu amgylcheddol y Senedd.

Credwn mai'r ffordd fwyaf priodol o ddeddfu dros Gymru ar faterion amgylcheddol yw drwy Fil Senedd, a wneir gan Senedd Cymru a'i haelodau etholedig, y mae Llywodraeth Cymru yn atebol iddi. Fodd bynnag, mae Bil Llywodraethu amgylcheddol y Senedd o leiaf flwyddyn arall i ffwrdd. Er nad yw'n ddelfrydol, defnyddio Bil y DU yw'r unig ffordd o sicrhau y gellir gwneud y darpariaethau ar gyfer Cymru o fewn amserlen resymol.

Bydd Bil y DU yn galluogi Llywodraeth Cymru, ymhlith pethau eraill, i gyflawni diwygiadau allweddol mewn polisi rheoli gwastraff fel rhan o gamau ehangach i fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur. Mae'r llinellau amser o ran gweithredu ar gyfer y rhain eisoes wedi'u gwthio yn ôl. Ni fyddem am i gyflwyniad y diwygiadau hyn fod yn destun oedi pellach.

Er gwaethaf yr uchod, mae gennym amheuon difrifol ynghylch darpariaethau penodol. Ein dewis cryf yw mynd i'r afael â'r pryderon hyn drwy welliannau i Fil y DU. Fodd bynnag, mae Bil y DU wedi cyrraedd ei gamau craffu terfynol, sy'n golygu bod amser cyfyngedig ar gael i Lywodraeth Cymru drafod gwelliannau gyda Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig eraill. Gyda hyn mewn golwg, rydym wedi gwneud argymhellion amgen, a fyddai, o'u derbyn, yn mynd i'r afael yn ddigonol â'n pryderon.

Rydym yn argymhell i'r Senedd ei bod yn rhoi ei chydsyniad i'r darpariaethau ym Mil y DU, ar yr amod ei bod yn fodlon ar ymateb Llywodraeth Cymru i argymhellion 1, 2, 12, 17, 18 a 19 yn yr adroddiad hwn. Rhaid i Lywodraeth Cymru ddarparu ymateb manwl i'r argymhellion hyn cyn y ddadl ar gydsyniad deddfwriaethol. Yn ei hymateb i argymhelliad 1, rydym yn disgwyl i Lywodraeth Cymru amlinellu'r camau y mae wedi'u cymryd i ymgysylltu â Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig eraill.

Rhaid i Lywodraeth Cymru ymateb i'r holl argymhellion sy'n weddill cyn gynted ag sy'n ymarferol, neu o fewn yr amserlen a bennir gan y Pwyllgor.

## Cynnwys

<b>1.</b>	<b>Cyflwyniad.....</b>	<b>5</b>
<b>2.</b>	<b>Cefndir .....</b>	<b>6</b>
<b>3.</b>	<b>Pwerau cydredol plws .....</b>	<b>8</b>
<b>4.</b>	<b>Rhan 1 - Llywodraethu amgylcheddol.....</b>	<b>12</b>
<b>5.</b>	<b>Rhan 3 - Gwastraff ac effeithlonrwydd o ran adnoddau .....</b>	<b>16</b>
<b>6.</b>	<b>Rhan 4 - Ansawdd aer .....</b>	<b>21</b>
<b>7.</b>	<b>Rhan 5 - Dŵr .....</b>	<b>23</b>
<b>8.</b>	<b>Rhan 6 - Natur a bioamrywiaeth.....</b>	<b>26</b>
<b>9.</b>	<b>Rhan 8 – Darpariaethau amrywiol a chyffredinol.....</b>	<b>28</b>

---

## Argymhellion

**Argymhelliad 1.** Dylai'r Gweinidog ymgysylltu â Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig eraill i geisio cytundeb i ddiwygio Bil y DU i ddisodli'r pwerau 'cydredol plws' â phwerau i weinyddiaethau'r DU wneud rheoliadau ar y cyd wrth weithredu polisiau ledled y DU. Dylai'r rheoliadau hyn fod yn destun gwaith craffu gan bob un o ddeddfwrfeydd y DU.....11

**Argymhelliad 2.** Os na all y Gweinidog sicrhau gwelliannau i Fil y DU, dylai:

- roi ymrwymiad y bydd y pwerau 'cydredol plws' yn cael eu dileu cyn gynted â phosibl; a
  - nodi ei safbwynt ar sefydlu gweithdrefn ffurfiol i lywodraethu cyfranogiad y Senedd mewn penderfyniadau cydsynio mewn perthynas â phwerau 'cydredol plws' ym Mil y DU.
- .....11

**Argymhelliad 3.** Rhaid i Lywodraeth Cymru ymrwymo i sicrhau bod amser ar gael ar gyfer Bil llywodraethu amgylcheddol y Senedd yn ail flwyddyn ei rhaglen deddfwriaethol.....14

**Argymhelliad 4.** Rhaid i'r Gweinidog adrodd yn ôl i'r Pwyllgor cyn pen chwe mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn ar y cynnydd a wnaed tuag at ddatblygu Bil llywodraethu amgylcheddol y Senedd. ....14

**Argymhelliad 5.** Rhaid i Lywodraeth Cymru ymrwymo i gyflwyno targedau bioamrywiaeth statudol ar y cyfle cyntaf sydd ar gael.....14

**Argymhelliad 6.** Dylai'r Gweinidog egluro:

- ai Bil llywodraethu amgylcheddol y Senedd yw'r unig gyfrwng addas o fewn rhaglen deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer y Chweched Senedd i wneud darpariaeth ar gyfer targedau bioamrywiaeth statudol; ac
  - os felly, sut y bydd hyn yn effeithio ar amseriad cyflwyno'r Bil, os bydd unrhyw effaith.
- .....14

- 
- Argymhelliad 7.** Rhaid i'r Gweinidog nodi pa gamau y mae'n bwriadu eu cymryd i sicrhau bod digon o adnoddau a chapasiti yn ei hadran, ac adran gyfreithiol Llywodraeth Cymru, i gyflawni ymrwymadau deddfwriaethol cyfredol.....15
- Argymhelliad 8.** Rhaid i'r Gweinidog adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar unrhyw drafodaethau y mae wedi'u cael, neu'n bwriadu eu cael, gyda Llywodraeth y DU ar ddefnyddio Biliau'r DU yn sesiwn Seneddol 2021-22 i ddeddfu dros Gymru ar faterion sy'n dod o fewn ei phortffolio.....15
- Argymhelliad 9.** Dylai'r Gweinidog adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar ganlyniad ymgynghoriadau mis Mawrth 2021 ar Gyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr ar gyfer deunydd pacio a Chynllun Dychwelyd Ernes, ac ymgynghoriad mis Gorffennaf 2020 ar leihau plastigau untro, cyn gynted ag sy'n ymarferol. ....19
- Argymhelliad 10.** Rhaid i Lywodraeth Cymru ymrwymo i gyflwyno 'Cynllun Dychwelyd Ernes hollgynhwysol' yng Nghymru, ni waeth a yw Llywodraeth y DU a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon yn penderfynu ar gynllun sy'n gulach ei gwmpas ai peidio.....19
- Argymhelliad 11.** Dylai'r Gweinidog roi diweddariad i'r Pwyllgor am y gwaith sy'n cael ei wneud i asesu'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer treth neu dâl ar eitemau plastig untro. Dylai hefyd egluro pryd y bydd Llywodraeth Cymru yn debygol o fod mewn sefyllfa i wneud penderfyniad terfynol ar yr opsiwn a ffefrir ganddi.....19
- Argymhelliad 12.** Dylai'r Gweinidog egluro pam ei bod yn credu ei bod yn briodol cymryd y pwerau i godi tâl am blastigau untro ym Mil y DU pan nad yw'n eglur a fydd angen y pwerau hynny.....20
- Argymhelliad 13.** Dylai Llywodraeth Cymru roi pwysau ar weinyddiaethau eraill y DU i gytuno ar ffordd ymlaen a fyddai'n ei galluogi i gyflwyno gwaharddiad ar blastigau untro sy'n cyflawni ei huchelgais llawn o ran polisi. ....20
- Argymhelliad 14.** Dylai'r Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor, cyn pen dau fis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn, ar y cynnydd a wnaed wrth gyflwyno cynigion ar gyfer gwahardd plastigau untro. ....20
- Argymhelliad 15.** Dylai'r Gweinidog adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar ganlyniad ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y Papur Gwyn ar y Bil Aer Glân (Cymru) cyn gynted ag sy'n ymarferol. Dylai'r adroddiad gynnwys amserlen ddangosol ar gyfer y camau sy'n weddill o ddatblygiad y Bil.....22
-

**Argymhelliad 16.** Dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i gyflwyno'r Bil Aer Glân (Cymru) yn ail flwyddyn ei rhaglen deddfwriaethol.....22

**Argymhelliad 17.** Dylai'r Gweinidog ymrwymo i ymgynghori â rhanddeiliaid cyn gwneud rheoliadau gan ddefnyddio pwerau o dan Ran 5.....24

**Argymhelliad 18.** Dylai'r Gweinidog egluro pam mae'r pwerau cyfarwyddo yn Rhan 5 yn angenrheidiol, a nodi'r meini prawf y bydd Llywodraeth Cymru yn eu defnyddio i benderfynu a ddylid arfer y pwerau hyn.....25

**Argymhelliad 19.** Dylai'r Gweinidog egluro ymhellach pam y cred ei bod yn briodol defnyddio cytundeb anffurfiol nad yw'n rhwymol i ddatrys yr anghydfod â Llywodraeth y DU ynghylch cymhwysedd deddfwriaethol o ran y darpariaethau mewn perthynas â defnyddio nwyddau coedwigaeth. ....27

## 1. Cyflwyniad

1. Ar 18 Mehefin 2021, gosododd y Gweinidog Newid Hinsawdd ('y Gweinidog') Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer Bil yr Amgylchedd ('y Memorandwm').
2. Ar 29 Mehefin 2021, cyfeiriodd y Pwyllgor Busnes y Memorandwm at y Pwyllgor hwn ac at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad i'w drafod, gyda 13 Medi 2021 wedi'i bennu fel y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad. Yn dilyn cais gan y Pwyllgor hwn a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, ysgrifennodd y Gweinidog at Lywodraeth y DU yn gofyn am drefnu Trydydd Darlleniad yr Arglwyddi yn ddiweddarach i roi mwy o amser i'r Senedd graffu. Cafodd y dyddiad cau ei ymestyn wedi hynny i 23 Medi 2021.
3. Ar 3 Medi 2021 gosododd y Gweinidog Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar gyfer Bil yr Amgylchedd ('y Memorandwm Atodol'). Cafodd ei gyfeirio wedi hynny at y Pwyllgor hwn. Roedd yr amserlen graffu ar gyfer y Memorandwm Atodol yn golygu nad oedd y Pwyllgor mewn sefyllfa i'w ystyried.

### Ein dull craffu

4. Cawsom dystiolaeth gan y Gweinidog yn ein cyfarfod ar 15 Gorffennaf 2021. Yn dilyn hynny, gwnaethom ysgrifennu at y Gweinidog gyda chyfres o gwestiynau ychwanegol. Mae'r cyfnewid hwn mewn gohebiaeth ar gael ar wefan y Senedd.

## 2. Cefndir

### Trosolwg o Fil yr Amgylchedd

6. Mae Bil Amgylchedd y DU ('Bil y DU') yn cynnwys dau hanner thematig. Mae'r cyntaf yn darparu fframwaith cyfreithiol ar gyfer llywodraethu amgylcheddol. Mae'r ail yn gwneud darpariaeth ar gyfer gwelliant penodol o'r amgylchedd, gan gynnwys mesurau ar wastraff ac effeithlonrwydd o ran adnoddau, ansawdd aer, dŵr, a natur a bioamrywiaeth.
7. Mae tua hanner darpariaethau Bil y DU yn gymwys ac yn berthnasol i Gymru, gyda nifer sylweddol o'r darpariaethau'n gymwys i Brydain Fawr, y DU neu Loegr, Cymru a Gogledd Iwerddon.
8. Mae Bil y DU yn cynnwys pwerau llunio rheoliadau eang i Weinidogion Cymru, y mae rhai ohonynt yn 'bwerau cydredol plws', a fyddai'n galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud rheoliadau mewn meysydd cymhwysedd datganoledig gyda chydysniad Gweinidogion Cymru.

### Cynnydd y Bil hyd yma

9. Cyflwynwyd Bil y DU gyntaf yn Nhŷ'r Cyffredin ar 30 Ionawr 2020. Gohiriwyd gwaith craffu Seneddol y DU ar Fil y DU ym mis Mawrth 2020 yn dilyn dechrau'r pandemig COVID-19. Ni chwblhaodd Bil y DU ei hynt yn sesiwn Seneddol y DU ar gyfer 2019-2021 ac roedd yn destun cynnig cario drosodd. Cafodd ei ailgyflwyno yn Senedd y DU ar 26 Mai 2021 pan ddaeth Trydydd Darlleniad a Chyfnod Adrodd Tŷ'r Cyffredin i ben, a dechreuwyd ystyried Bil y DU yn Nhŷ'r Arglwyddi.
10. Ers i'r Memorandwm gael ei osod, mae Cyfnod Adrodd a Chyfnod Pwyllgor yr Arglwyddi wedi dod i ben. Rhagwelir y bydd Trydydd Darlleniad yr Arglwyddi yn digwydd yn gynnar yn yr hydref. Yn amodol ar Senedd y DU yn pasio Bil y DU, mae disgwyl Cydsyniad Brenhinol ym mis Tachwedd 2021.

### Trafod Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol yn y Bumed Senedd

11. Yn ystod y Bumed Senedd, gosododd Llywodraeth Cymru ddau Femorandwm ar gyfer fersiynau cynharach o Fil y DU. Cyfeiriwyd y Memoranda at ragflaenydd y Pwyllgor hwn, Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig a Phwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad y Bumed Senedd i'w trafod.
12. Gellir gweld adroddiadau Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig ar y Memoranda, ynghyd ag ymatebion Llywodraeth Cymru ar wefan y Senedd.



## Y darpariaethau y mae angen cydsyniad ar eu cyfer

**13.** Mae'r Memorandwm yn egluro bod darpariaethau ar gyfer Cymru yn cael eu gwneud yn y Rhannau a ganlyn o Fil y DU: Llywodraethu Amgylcheddol (Rhan 1); Gwastraff ac effeithlonrwydd o ran adnoddau (Rhan 3); Ansawdd aer (Rhan 4); Dŵr (Rhan 5); Natur a bioamrywiaeth (Rhan 6); Darpariaethau amrywiol a chyffredinol.

**14.** Mae paragraffau 8 i 83 o'r Memorandwm yn darparu rhagor o fanylion am y darpariaethau perthnasol, ynghyd â safbwynt Llywodraeth Cymru ar gymhwysedd datganoledig. Mae disgrifiad manylach o'r darpariaethau perthnasol ar gael ym mhenodau dilynol yr adroddiad hwn.

## Y rhesymau dros wneud darpariaethau ar gyfer Cymru ym Mil y DU

**15.** Yn ôl y Memorandwm, mae Llywodraeth Cymru yn "dilyn yr egwyddor mai Senedd Cymru ddylai ddeddfu deddfwriaeth sylfaenol" mewn meysydd datganoledig. Mae'n mynd ymlaen i nodi, "mae'n synhwyrol ac yn fanteisiol o dan rai amgylchiadau ac ar ôl cael cydsyniad y Senedd, i ofyn am ddarpariaethau ym Miliâu Senedd y DU a fyddai o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd."

**16.** Mae paragraffau 86 i 99 o'r Memorandwm yn nodi rhesymau Llywodraeth Cymru dros wneud y darpariaethau ar gyfer Cymru ym Mil y DU. Daw'r Memorandwm i'r casgliad a ganlyn:

*"mae'n briodol defnyddio Bil Amgylchedd y DU i gyflwyno mentrau y mae'n debygol y bydd eu hangen er mwyn bwrw ymlaen â'r strategaeth ar gyfer economi gylchol, yn enwedig pan fydd angen gweithredu mewn ffordd gydgyssylltiedig gyda gweinyddiaethau eraill y DU. Yn yr un modd, mae rheoli ansawdd dŵr mewn ffordd effeithiol a rheoleiddio cemegau ar ôl i'r DU ymadael â'r UE yn faterion priodol ar gyfer y Bil hwn. Mae'r newidiadau deddfwriaethol arfaethedig sy'n ymwneud ag ansawdd aer a draenio tir yn fodd i wneud cyfrifoldebau Gweinidogion Cymru yn fwy clir, neu mae'r newidiadau a wneir yn rhai gweinyddol eu natur, ac mae'r Bil yn cynnig cyfle i fwrw ymlaen â hwy."*

### 3. Pwerau cydredol plws

**17.** Mae pŵer 'cydredol plws' yn bŵer a fyddai'n galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud rheoliadau mewn meysydd cymhwysedd datganoledig gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru. Mae Bil y DU yn cynnwys pwerau 'cydredol plws' yn y meysydd a ganlyn: cyfrifoldeb cynhyrchydd; effeithlonrwydd o ran adnoddau; cynlluniau adneuo; ansawdd dŵr; a diwygiadau i ddeddfwriaeth REACH.

#### Tystiolaeth gan y Gweinidog

**18.** Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor fod y meini prawf y byddai Llywodraeth Cymru yn eu defnyddio wrth benderfynu a ddylid cydsynio i ddefnyddio pwerau cydredol plws wedi'u nodi yn y Canllawiau ar gyfer swyddogion Llywodraeth Cymru ar bwerau cydredol ('y Canllawiau').<sup>1</sup>

**19.** Yn ôl Egwyddor 8 yn y Canllawiau:

*"Dylid ond creu swyddogaethau cydredol newydd mewn amgylchiadau eithriadol...O ystyried bod creu pwerau cydredol yn cyfyngu'r Senedd wrth weithredu ei chymhwysedd deddfwriaethol, a bod Deddf Llywodraeth Cymru wedi'i llunio ar y sail y bydd nifer y pwerau cydredol yn lleihau, yn hytrach na chynyddu, dylem osgoi ceisio neu gytuno ar bwerau cydredol newydd pan fo hynny'n bosibl. Dylid ceisio datrysiadau amgen fel cymryd y pwerau ar gyfer Gweinidogion Cymru yn unig, gweithredu cytundebau rhynglywodraethol drwy reoliadau ar wahân, neu offerynnau cyfansawdd."*

**20.** Aiff ymlaen i ddweud:

*"Pan gynigir pŵer cydredol newydd, bydd angen sicrwydd ar Weinidogion...fod sail resymegol glir a chryf iawn dros ofyn i'r pŵer gael ei greu yn y ffordd hon."*

**21.** Wrth egluro'r amgylchiadau lle byddai Llywodraeth Cymru yn eu hystyried yn briodol i'r Ysgrifennydd Gwladol ddefnyddio'r pwerau 'cydredol plws' mewn perthynas â Chyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr a Chynlluniau Dychwelyd Ernes, dywedodd y Gweinidog :

---

<sup>1</sup> Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd at Bwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, dyddiedig 6 Awst 2021

*"Mae'r Bil yn rhoi pwerau i gyflwyno Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr a Chynlluniau Dychwelyd Ernes ar ystod eang o eitemau. Bydd yr eitemau hynny'n cael eu hystyried fesul achos ac ar y cyd â'r gwledydd eraill. Bydd y camau deddfwriaethol a gymerir yn dibynnu ar ofynion pob cynllun. O'r herwydd, mae angen cynnal yr hyblygrwydd naill ai i:*

- *wneud ein rheoliadau ein hunain yng Nghymru ar gyfer cynllun pwrpasol i Gymru;*
- *creu deddfwriaeth sy'n adlewyrchu deddfwriaeth y gwledydd eraill pan fo angen cynlluniau cyffredin ym mhob gwlad, ond mae'n bosibl y byddwn am gadw'r gallu i ddiwygio rhai agweddau ar gyfer Cymru yn y dyfodol neu;*
- *ganiatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol ddeddfu ar ein rhan, pe bai'n briodol cyflwyno cynllun ar gyfer y DU gyfan.*

*Mae'r pwerau a gymerir o dan y cymalau hyn, ynghyd â'r eithriad i atodlen 7b i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, yn sicrhau'r lefel ofynnol o hyblygrwydd."*

**22.** Fodd bynnag, eglurodd hefyd ei bod yn bwriadu gosod rheoliadau penodol ar gyfer Cymru er mwyn dod â'r cynlluniau i rym. Dywedodd y byddai gweinyddiaethau eraill y DU yn cyflwyno eu rheoliadau "sy'n adlewyrchu" eu hunain ar yr un pryd "fel y bo modd rhoi'r darpariaethau hyn ar waith ledled y DU ar yr un pryd".

**23.** Yn ôl y Gweinidog:

*"Mae'r ffordd y penderfynwyd gweithredu mewn perthynas â Chyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr am ddeunydd pacio a Chynlluniau Dychwelyd Ernes yn cadw'r ddysgl yn wastad rhwng cadw rhywfaint o atebolrwydd gweinidogol yng Nghymru a gosod is-ddeddfwriaeth ar gyfer Cymru, a bod yn bragmataidd ynglŷn â defnyddio'r adnoddau sydd gennym ac am sut y gall gweithio ledled y DU sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i Gymru."<sup>2</sup>*

**24.** Dywedodd y Gweinidog, pe bai'r pwerau 'cydredol plws' yn cael eu defnyddio yn y dyfodol, byddai Llywodraeth Cymru wedi chwarae rhan lawn mewn rhaglen datblygu a

---

<sup>2</sup> Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd at Bwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, dyddiedig 6 Awst 2021

gweithredu polisi drwy ei threfniadau llywodraethu rhynglywodraethol.<sup>3</sup> Ymrwymodd y byddai'r Senedd yn cael cyfle i fynegi barn cyn i Weinidogion Cymru gydsynio i ddefnyddio'r pwerau, pe byddai amser yn caniatáu.<sup>4</sup>

## Ein barn ni

Nid yw'r Gweinidog wedi darparu rhesymeg ddigon cryf dros gynnwys y pwerau 'cydredol plws' ym Mil y DU.

Nid ydym yn ystyried bod cynnwys y pwerau 'cydredol plws' yn Rhan 3 yn unol â Chanllawiau Llywodraeth Cymru ei hun ar gynigion ar gyfer pwerau cydredol newydd. Mae'r Canllawiau'n nodi'n glir y dylid osgoi "ceisio neu gytuno ar bwerau cydredol newydd (gan gynnwys pwerau 'cydredol plws') pan fo hynny'n bosibl" ac y dylid ond creu unrhyw bwerau o'r fath mewn "amgylchiadau eithriadol iawn". Yn y cyd-destun hwn, nid ydym yn credu bod yr angen am "hyblygrwydd" yn rheswm digonol i greu pwerau 'cydredol plws' newydd.

Credwn mai cyfrifoldeb Gweinidogion Cymru yw gwneud rheoliadau pwysig i Gymru mewn meysydd cymhwysedd datganoledig, ac i'r rheoliadau hynny fod yn destun gwaith craffu gan y Senedd. Efallai y bydd rhai amgylchiadau lle byddai'n dderbyniol i reoliadau gael eu gwneud ledled y DU, er enghraifft, wrth weithredu polisi cytunedig ledled y DU. Ond, byddem yn disgwyl i'r rheoliadau hynny gael eu gwneud ar y cyd gan weinyddiaethau'r DU, ac yn destun gwaith craffu gan bob un o'r pedair deddfwrfa. Gallai'r dull hwn hefyd fod yn berthnasol i reoliadau gael eu gwneud ar sail Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon ac ar sail Cymru a Lloegr, er enghraifft, yn achos rheoliadau Cynllun Dychwelyd Ernes a rheoliadau ar ansawdd dŵr.

Mae'r Gweinidog wedi cadarnhau nad oes angen y pwerau 'cydredol plws' er mwyn bwrw ymlaen â'r Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr a'r Cynllun Dychwelyd Ernes ledled y DU. Yn wir, mae wedi nodi na fyddant yn cael eu defnyddio at y diben hwn. Mae hyn yn gwanhau ymhellach ddadl y Gweinidog dros gynnwys y pwerau hyn.

Byddai'r pwerau 'cydredol plws' yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud rheoliadau amgylcheddol pwysig i Gymru ar ran Gweinidogion Cymru, yn amodol ar eu cydsyniad. Effaith hyn fyddai osgoi gwaith craffu ar y rheoliadau hynny gan y Senedd. Yn hytrach, byddai'r gwaith craffu yn cael ei wneud gan Senedd y DU. Drwy gydsynio i gynnwys pwerau 'cydredol plws', mae'r Senedd yn fforffedu ei hawl i arfer ei swyddogaeth graffu.

---

<sup>3</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 15, Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, 15 Gorffennaf 2021

<sup>4</sup> Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd at Bwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, dyddiedig 6 Awst 2021

---

Nodwn ymrwymiad y Gweinidog i hysbysu'r Senedd o fwriad Gweinidogion Cymru i gydsynio i'r Ysgrifennydd Gwladol ddefnyddio pwerau 'cydredol plws', yn unol â'r Canllawiau. Yn ôl y Canllawiau, "pan fyddai amser yn caniatáu", rhoddir cyfle i'r Senedd fynegi barn cyn i Weinidogion roi cydsyniad. Nid yw hyn yn ddigon o bell ffordd i alluogi'r Senedd i graffu ar reoliadau Cymru mewn meysydd pwysig o gymhwysedd datganoledig.

Mae gweithdrefnau ffurfiol eisoes sy'n llywodraethu cyfranogiad y Senedd mewn penderfyniadau cydsynio ar gyfer gwahanol gategorïau o is-ddeddfwriaeth a wneir gan Weinidogion y DU mewn meysydd cymhwysedd datganoledig. Os cedwir y pwerau 'cydredol plws' ym Mil y DU, credwn fod achos cryf dros weithdrefn ffurfiol i fod yn berthnasol i benderfyniadau cydsynio mewn perthynas â'r pwerau hyn.

**Argymhelliad 1.** Dylai'r Gweinidog ymgysylltu â Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig eraill i geisio cytundeb i ddiwygio Bil y DU i ddisodli'r pwerau 'cydredol plws' â phwerau i weinyddiaethau'r DU wneud rheoliadau ar y cyd wrth weithredu polisiau ledled y DU. Dylai'r rheoliadau hyn fod yn destun gwaith craffu gan bob un o ddeddfwrfeydd y DU.

**Argymhelliad 2.** Os na all y Gweinidog sicrhau gwelliannau i Fil y DU, dylai:

- roi ymrwymiad y bydd y pwerau 'cydredol plws' yn cael eu dileu cyn gynted â phosibl; a
- nodi ei safbwynt ar sefydlu gweithdrefn ffurfiol i lywodraethu cyfranogiad y Senedd mewn penderfyniadau cydsynio mewn perthynas â phwerau 'cydredol plws' ym Mil y DU.

## 4. Rhan 1 - Llywodraethu amgylcheddol

**25.** Nod Rhan 1 o'r Bil yw darparu fframwaith ar gyfer llywodraethu amgylcheddol, yn Lloegr a Gogledd Iwerddon yn bennaf, ar ôl ymadael â'r UE, a bydd yn gosod Cynllun Amgylcheddol 25 Mlynedd Llywodraeth y DU ar sail statudol.

**26.** Mae Rhan 1 yn gwneud darpariaeth ar gyfer corff llywodraethu amgylcheddol newydd, a elwir yn Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd, a fydd â swyddogaethau craffu, cynghori a gorfodi mewn perthynas â diogelu'r amgylchedd a'r amgylchedd naturiol. Mae cylch gwaith y Swyddfa yn ymdrin â materion a gedwir yn ôl yn Lloegr a ledled y DU.

### Corff llywodraethu amgylcheddol Cymru

**27.** Yn ystod y Bumed Senedd, nododd Llywodraeth Cymru ei bwriad i ddeddfu i fynd i'r afael ag unrhyw fylchau llywodraethu amgylcheddol yng Nghymru sy'n deillio o golli mynediad at system llywodraethu'r UE. Nid ymrwymodd i amserlen i wneud hyn ac ni chyflwynwyd Bil llywodraethu amgylcheddol y Senedd yn y Bumed Senedd.

**28.** Ym mis Mawrth 2021, penododd Llywodraeth Cymru Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd i Gymru ('Asesydd Interim') a fydd yn "goruchwyllo'r mesurau interim ar gyfer llywodraethu amgylcheddol am gyfnod o hyd at ddwy flynedd." Rôl yr Asesydd Interim yw ystyried pryderon a godir am 'weithredu cyfraith amgylcheddol'.<sup>5</sup> Mae'r sector amgylcheddol wedi mynegi pryder bod hwn yn gam sylweddol tuag yn ôl o'r sefyllfa cyn ymadael â'r UE ac mae wedi parhau i alw am gyflwyno Bil Senedd fel blaenoriaeth.

### Tystiolaeth gan y Gweinidog

**29.** Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor ei bod yn gobeithio cyflwyno Bil llywodraethu amgylcheddol y Senedd yn ail flwyddyn rhaglen deddfwriaethol Llywodraeth Cymru, er nad oedd yn gallu cadarnhau amserlen. Ychwanegodd:

*"we're very keen for [the Bill], if possible, to incorporate the [biodiversity] targets that we want to put in place. But these things are always a balance. So, I wouldn't want to hold the Bill up if I couldn't put the targets on the face of the Bill; on the other hand, I do want to have statutory targets. So, there'll be some give and take on that, but that's the current plan. I'm not in a*

---

<sup>5</sup> Yn ôl [Canllawiau Llywodraeth Cymru](#), (Rhagfyr 2020), mae pryderon ynghylch gweithrediad cyfraith amgylcheddol yn disgyn i dri chategori eang: nid yw'n cyflawni'r amcanion a'r canlyniadau a fwriadwyd mwyach; nid yw canllawiau na gwybodaeth am y gyfraith yn hygyrch; a rhwystrir cyflwyno'r gyfraith yn ymarferol.

*position to promise it yet, but I can tell you that I've bid for that place and that we're hopeful that we'll get it."*<sup>6</sup>

**30.** Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor y byddai'n llawer gwell ganddi gael Deddf Llywodraethu amgylcheddol y Senedd erbyn diwedd daliadaeth dwy flynedd yr Asesydd Interim os yn bosibl.<sup>7</sup> Fodd bynnag, ychwanegodd y Gweinidog:

*"my portfolio has a very large amount of legislation inside it, so we're in the process of trying to balance all of that about where we are in the legislative programme, so where those Bills sit for Senedd time and committee time, but also quite frankly where the resources inside the portfolio are to be directed in terms of who's taking what Bill through..."*<sup>8</sup>

## Ein barn ni

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn ymwybodol o'r potensial am fylchau mewn llywodraethu amgylcheddol yng Nghymru ers canlyniad refferendwm yr UE yn 2016. Er bod Llywodraeth Cymru wedi cydnabod bod bylchau yn bodoli, bu'n araf yn cymryd camau i fynd i'r afael â hwy. Er gwaethaf galwadau gan y sector amgylcheddol a'n Pwyllgor blaenorol, mae Llywodraeth Cymru wedi dewis peidio â blaenoriaethu Bil Llywodraethu amgylcheddol y Senedd ym mlwyddyn gyntaf ei rhaglen ddeddfwriaethol.

Unwaith y bydd Bil y DU yn cael ei ddeddfu, Cymru fydd yr unig genedl yn y DU heb ddeddfwriaeth ar waith ar gyfer system llywodraethu amgylcheddol bwrpasol, ar ôl Brexit. Mae hyn yn siomedig iawn ac yn groes i ymrwymiad Llywodraeth Cymru i sicrhau nad oes gostyngiad yn y safonau amgylcheddol ar ôl Brexit. Disgwylwn i Lywodraeth Cymru sicrhau bod amser ar gael ar gyfer Bil Llywodraethu amgylcheddol y Senedd yn ail flwyddyn ei rhaglen ddeddfwriaethol.

Mae'r Gweinidog wedi mynegi ffafriaeth i gorff goruchwyllo newydd fod ar waith cyn diwedd daliadaeth yr Asesydd Interim yn gynnar yn 2023. Er ein bod yn cefnogi hyn yn llawn, rydym yn pryderu na ellir cyflawni hyn oni bai bod Bil Llywodraethu amgylcheddol y Senedd yn cael ei gyflwyno ar ddechrau ail flwyddyn y rhaglen ddeddfwriaethol. O ystyried nad yw Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori eto ar gynigion deddfwriaethol manwl, rydym yn cwestiynu a fydd Bil y

---

<sup>6</sup> Cofnod y Trafodion, paragraffau 25-26, Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, 15 Gorffennaf 2021

<sup>7</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 35, Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, 15 Gorffennaf 2021

<sup>8</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 37, Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, 15 Gorffennaf 2021

Senedd yn barod i'w gyflwyno o fewn yr amserlen hon. Rydym yn ceisio sicrwydd gan y Gweinidog ar y mater hwn.

Nodwn fod y Gweinidog yn ystyried cyflwyno targedau bioamrywiaeth statudol. Er bod hwn yn ddatblygiad cadarnhaol, nid yw'n cyflawni'r ymrwymiad cadarn i dargedau statudol y mae'r Senedd wedi galw amdano. Credwn y dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i gyflwyno targedau bioamrywiaeth statudol ar y cyfle cyntaf sydd ar gael.

Nid yw'n eglur ai Bil Llywodraethu amgylcheddol y Senedd yw'r unig gyfrwng addas o fewn rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer y Chweched Senedd i wneud darpariaeth ar gyfer targedau bioamrywiaeth statudol. Os yw hynny'n wir, rydym yn cwestiynu sut y bydd hyn yn effeithio ar amseriad cyflwyno'r Bil, os bydd unrhyw effaith. Rydym yn ceisio eglurhad gan y Gweinidog ar y materion hyn.

Nodwn y bydd y Gweinidog yn gyfrifol am gyflwyno nifer fawr o ddeddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth yn y Chweched Senedd. Rydym yn cydnabod yr angen i Lywodraeth Cymru gydbwyso blaenoriaethau a rheoli ei hadnoddau. Fodd bynnag, nid yw diffyg adnoddau neu gapasiti yn adran y Gweinidog neu adran gyfreithiol Llywodraeth Cymru yn rheswm derbyniol i ohirio cyflwyno deddfwriaeth amgylcheddol allweddol, megis Bil Llywodraethu amgylcheddol y Senedd. Nid ydym ychwaith yn disgwyl i'r diffyg adnoddau hwn arwain at gynnydd yn y defnydd o Filiau'r DU i ddeddfu dros Gymru. Rydym yn ceisio sicrwydd gan y Gweinidog ar y mater hwn.

**Argymhelliad 3.** Rhaid i Lywodraeth Cymru ymrwymo i sicrhau bod amser ar gael ar gyfer Bil Llywodraethu amgylcheddol y Senedd yn ail flwyddyn ei rhaglen ddeddfwriaethol.

**Argymhelliad 4.** Rhaid i'r Gweinidog adrodd yn ôl i'r Pwyllgor cyn pen chwe mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn ar y cynnydd a wnaed tuag at ddatblygu Bil Llywodraethu amgylcheddol y Senedd.

**Argymhelliad 5.** Rhaid i Lywodraeth Cymru ymrwymo i gyflwyno targedau bioamrywiaeth statudol ar y cyfle cyntaf sydd ar gael.

**Argymhelliad 6.** Dylai'r Gweinidog egluro:

- ai Bil Llywodraethu amgylcheddol y Senedd yw'r unig gyfrwng addas o fewn rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer y Chweched Senedd i wneud darpariaeth ar gyfer targedau bioamrywiaeth statudol; ac
- os felly, sut y bydd hyn yn effeithio ar amseriad cyflwyno'r Bil, os bydd unrhyw effaith.



**Argymhelliad 7.** Rhaid i'r Gweinidog nodi pa gamau y mae'n bwriadu eu cymryd i sicrhau bod digon o adnoddau a chapasiti yn ei hadran, ac adran gyfreithiol Llywodraeth Cymru, i gyflawni ymrwymadau deddfwriaethol cyfredol.

**Argymhelliad 8.** Rhaid i'r Gweinidog adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar unrhyw drafodaethau y mae wedi'u cael, neu'n bwriadu eu cael, gyda Llywodraeth y DU ar ddefnyddio Biliau'r DU yn sesiwn Seneddol 2021-22 i ddeddfu dros Gymru ar faterion sy'n dod o fewn ei phortffolio.

## 5. Rhan 3 - Gwastraff ac effeithlonrwydd o ran adnoddau

**31.** Mae Rhan 3 yn gwneud darpariaethau mewn perthynas â gwastraff ac effeithlonrwydd o ran adnoddau. Mae'n darparu pwerau eang i wneud rheoliadau ar gyfer Gweinidogion Cymru ac mae'n cynnwys pwerau 'cydredol plws' i'r Ysgrifennydd Gwladol.

**32.** I grynhoi, mae'r darpariaethau allweddol yn Rhan 3 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i:

- ddiwygio cynlluniau cyfrifoldeb cynhyrchwyr, gyda'r nod o wneud cynhyrchwyr yn gyfrifol am y costau net llawn sy'n gysylltiedig â rheoli eu cynhyrchion ar ddiwedd eu hoes (Cymalau 49 a 50, ac Atodlenni 4 a 5);
- pennu gofynion sylfaenol i weithgynhyrchwyr a chynhyrchwyr ddarparu gwybodaeth am eu cynhyrchion, a gwneud darpariaeth ar gyfer gorfodi rheoliadau (Cymalau 51 a 52, ac Atodlenni 6 a 7);
- cyflwyno cynllun dychwelyd ernes ar gyfer rhai eitemau fel cynwysyddion diodydd untro (Cymal 54 ac Atodlen 8);
- codi tâl ar gyfer eitemau plastig untro a gyflenwir mewn perthynas â nwydd neu wasanaeth (e.e. cynwysyddion plastig neu gyllyll a ffyrc plastig ar gyfer cludfwyd) (Cymal 52 ac Atodlen 9);
- gwneud darpariaeth ar gyfer olrhain gwastraff perthnasol, a sefydlu system olrhain electronig (Cymal 57); a
- gwneud darpariaeth i reoleiddio gwastraff peryglus (Cymal 59).

### Tystiolaeth gan y Gweinidog

**33.** Gofynnwyd i'r Gweinidog egluro beth yw'r goblygiadau o ran cyflawni polisi gwastraff yng Nghymru pe na bai'r darpariaethau yn Rhan 3 yn cael eu datblygu. Dywedodd:

*"if we don't get it through at the same time as the UK, it will have to wait on our Bill, and that could be a year or more down the road. So, in the interim period we will not have any of the strengthened powers, and so on. It just complicates things. It's not impossible to do it in Wales, but it would be later,*

*and then we'd have to make sure it aligned back to this Bill, so it's not optimal. So, this is, I think, by far the best way of doing it in a timely fashion."*<sup>9</sup>

**34.** Cadarnhaodd y Gweinidog mai ffafriaeth Llywodraeth Cymru oedd 'Cynllun Dychwelyd Ernes hollgynhwysol'. h.y. dal cynwysyddion diodydd hyd at 3 litr o faint, gan gynnwys poteli gwydr a phlastig PET, a chaniau dur ac alwminiwm. Dywedodd nad oedd Llywodraeth y DU a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon wedi gwneud penderfyniad terfynol eto ar gwmpas eu cynlluniau.<sup>10</sup>

**35.** Gofynnwyd i'r Gweinidog egluro sut a phryd y byddai Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r pwerau a ddarperir i gyflwyno taliadau ar blastigau untro. Dywedodd fod Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i archwilio'r defnydd o'r pwerau codi tâl newydd.<sup>11</sup>

**36.** Ailddatganodd y Gweinidog ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddeddfu i wahardd defnyddio plastigau untro sy'n sbwriel mwy cyffredin. Dywedodd fod Llywodraeth Cymru yn ystyried yr holl opsiynau sydd ar gael i gyflwyno'r gwaharddiad arfaethedig, gan gynnwys rheoliadau a wnaed gan ddefnyddio pwerau gweithredol presennol a Bil y Senedd mater unigol, byr.<sup>12</sup>

**37.** Eglurodd y Gweinidog fod cynlluniau Llywodraeth Cymru i wahardd defnyddio plastigau untro eisoes wedi cael eu gohirio o ganlyniad i Ddeddf Marchnad Fewnol y DU 2020<sup>13</sup>. Aeth ymlaen i egluro'r canlynol:

*"Mae trafodaethau rhwng swyddogion yn awgrymu bod gwahaniaethau yn yr hyn y mae gweinyddiaethau gwahanol y DU yn bwriadu'i wneud mewn perthynas â chyflwyno gwaharddiadau ar eitemau plastig untro...Oherwydd bod y gwahaniaethau hyn rhwng y llywodraethau yn parhau, mae'n bosibl y bydd angen inni adolygu yr hyn sydd gennym mewn golwg ar gyfer y*

---

<sup>9</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 43, Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, 15 Gorffennaf 2021

<sup>10</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 75, Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, 15 Gorffennaf 2021

<sup>11</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 82, Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, 15 Gorffennaf 2021

<sup>12</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 82, Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, 15 Gorffennaf 2021

<sup>13</sup> O dan Ddeddf Marchnad Fewnol y DU, bydd y gweinyddiaethau datganoledig yn gallu rheoleiddio darparwyr nwyddau a gwasanaethau yn eu rhan hwy o'r DU, ond na fydd y rheoliadau hyn o reidrwydd yn orfodadwy ar ddarparwyr nwyddau neu wasanaethau o rannau eraill o'r DU. Os defnyddir safonau is mewn rhannau eraill o'r DU yna mae'n debygol y gall yr egwyddor cyd-gydnabod o dan Ddeddf Marchnad Fewnol y DU effeithio ar allu Llywodraeth Cymru i wahardd neu gyfyngu o'r farchnad yng Nghymru y cyflenwad o gynhyrchion o'r fath a gynhyrchir yng ngwledydd eraill y DU, neu a fewnforir i rannau eraill o'r DU.

*gwaharddiadau neu mae'n bosibl y bydd y gwahaniaethau hynny'n arwain at ragor o oedi cyn iddynt gael eu cyflwyno yng Nghymru."*<sup>14</sup>

**38.** Dywedodd y Gweinidog fod trafodaethau'n cael eu cynnal ynglŷn â'r "posibilrwydd o eithrio'r cyfyngiadau ar blastigau untro yn gyfan gwbl o gwmpas yr 'egwyddor cydnabyddiaeth gilyddol'". Byddai'r dull hwn yn galluogi Llywodraeth Cymru i gyflawni ei "[h]uchelgais llawn o ran polisi". Fodd bynnag, dywedodd y Gweinidog "mae swyddogion Llywodraeth y DU wedi awgrymu na fydd cael cytundeb ar yr eithriad hwnnw yn debygol o fod yn rhywbeth a fydd yn digwydd yn gyflym".<sup>15</sup>

## Ein barn ni

### Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr a Chynlluniau Dychwelyd Ernes

---

Rydym yn croesawu'r sicrwydd a roddwyd gan y Gweinidog y bydd Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr dros ddeunydd pacio a'r Cynllun Dychwelyd Ernes ar gyfer Cymru yn cael eu sefydlu drwy reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru, yn amodol ar waith craffu gan y Senedd. Fel yr amlinellir ym Mhennod 5, mae hyn yn gwanhau dadl y Gweinidog bod angen y pwerau 'cydredol plws' yn Rhan 3.

Mae Llywodraeth Cymru, ar y cyd â gweinyddiaethau eraill y DU, eisoes wedi ymgynghori ar gynigion polisi terfynol ar gyfer Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr dros ddeunydd pacio a Chynllun Dychwelyd Ernes. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, nid oedd canlyniad yr ymgynghoriadau hyn ar gael eto. Dylai'r Gweinidog adrodd yn ôl inni ar y canlyniad cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

Mae amserlenni dosbarthu Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr dros ddeunydd pacio a Chynllun Dychwelyd Ernes eisoes wedi'u gwthio yn ôl i 2023 a diwedd 2024 yn y drefn honno. Ni fyddem am i'r cynlluniau fod yn destun oedi pellach yn ddiangen. Fodd bynnag, o ystyried arwyddocâd y diwygiadau credwn y dylai Llywodraeth Cymru ymrwmo i ymgynghori ar y rheoliadau drafft i sefydlu'r cynlluniau.

Rydym yn ceisio sicrwydd pellach gan y Gweinidog y bydd Llywodraeth Cymru yn ymrwmo i gyflwyno 'Cynllun Dychwelyd Ernes hollgynhwysol' yng Nghymru, ni waeth a yw Llywodraeth y

---

<sup>14</sup> Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd at Bwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, dyddiedig 6 Awst 2021

<sup>15</sup> Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd at Bwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, dyddiedig 6 Awst 2021

DU a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon yn penderfynu ar gynllun sy'n gulach ei gwmpas ai peidio.

### **Tâl am blastigau untro**

---

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn archwilio opsiynau ar gyfer treth neu dâl ar blastigau untro ers cryn amser. Nid yw'n eglur pryd y bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud penderfyniad terfynol ar ei hopsiwn o ddewis. Yn dibynnu ar benderfyniad Llywodraeth Cymru, mae'n bosibl na fydd y pwerau i godi tâl a wneir ym Mil y DU yn cael eu defnyddio. Nid ydym yn credu ei bod yn briodol i Lywodraeth Cymru ofyn am bwerau gweithredol oni bai bod ganddi gynlluniau cadarn i'w defnyddio.

### **Gwahardd plastigau untro**

---

Bu'n rhaid i Lywodraeth Cymru ohirio cynlluniau i wahardd plastigau untro o ganlyniad i ansicrwydd ynghylch effaith Deddf Marchnad Fewnol y DU ar gwmpas y gwaharddiad. Mae hyn yn destun gofid mawr ac mae'n enghraifft glir o sut mae'r Ddeddf yn effeithio'n uniongyrchol ar gyflawni polisi datganoledig.

Mae risg y bydd Llywodraeth Cymru yn cael ei gorfodi i ostwng ei huchelgeisiau ar gyfer y gwaharddiad oni bai y gall gytuno ar ffordd ymlaen gyda gweinyddiaethau eraill y DU. Byddai hyn yn siomedig iawn. Rydym yn awyddus i waharddiad sy'n cyflawni uchelgeisiau llawn o ran polisi Llywodraeth Cymru gael ei gyflwyno cyn gynted â phosibl. Dylai Llywodraeth Cymru roi pwysau ar weinyddiaethau eraill y DU i gytuno ar ffordd ymlaen a fyddai'n ei galluogi i sicrhau'r canlyniad hwn.

**Argymhelliad 9.** Dylai'r Gweinidog adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar ganlyniad ymgynghoriadau mis Mawrth 2021 ar Gyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr ar gyfer deunydd pacio a Chynllun Dychwelyd Ernes, ac ymgynghoriad mis Gorffennaf 2020 ar leihau plastigau untro, cyn gynted ag sy'n ymarferol.

**Argymhelliad 10.** Rhaid i Lywodraeth Cymru ymrwmo i gyflwyno 'Cynllun Dychwelyd Ernes hollgynhwysol' yng Nghymru, ni waeth a yw Llywodraeth y DU a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon yn penderfynu ar gynllun sy'n gulach ei gwmpas ai peidio.

**Argymhelliad 11.** Dylai'r Gweinidog roi diweddariad i'r Pwyllgor am y gwaith sy'n cael ei wneud i asesu'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer treth neu dâl ar eitemau plastig untro. Dylai hefyd egluro pryd y bydd Llywodraeth Cymru yn debygol o fod mewn sefyllfa i wneud penderfyniad terfynol ar yr opsiwn a ffefrir ganddi.

**Argymhelliad 12.** Dylai'r Gweinidog egluro pam ei bod yn credu ei bod yn briodol cymryd y pwerau i godi tâl am blastigau untro ym Mil y DU pan nad yw'n eglur a fydd angen y pwerau hynny.

**Argymhelliad 13.** Dylai Llywodraeth Cymru roi pwysau ar weinyddiaethau eraill y DU i gytuno ar ffordd ymlaen a fyddai'n ei galluogi i gyflwyno gwaharddiad ar blastigau untro sy'n cyflawni ei huchelgais llawn o ran polisi.

**Argymhelliad 14.** Dylai'r Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor, cyn pen dau fis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn, ar y cynnydd a wnaed wrth gyflwyno cynigion ar gyfer gwahardd plastigau untro.

## 6. Rhan 4 - Ansawdd aer

**39.** Mae'r rhan fwyaf o'r darpariaethau mewn perthynas ag ansawdd aer yn berthnasol i Loegr yn unig. Fodd bynnag, mae'r darpariaethau a ganlyn yn berthnasol i Gymru:

- dileu'r gofyniad i'r Strategaeth Ansawdd Aer Genedlaethol gwmpasu Prydain Fawr gyfan (Cymal 71, Atodlen 11); a
- Newid i'r weithdrefn i Weinidogion Cymru awdurdodi tanwydd a lleoedd tân eithriedig i'w defnyddio mewn ardaloedd rheoli mwg (Cymal 72, Atodlen 12).

**40.** Mae'r Memorandwm yn egluro mai bwriad y newidiadau yw gwneud y broses o ddynodi tanwydd awdurdodedig a lleoedd tân eithriedig i'w gwerthu mewn ardaloedd rheoli mwg yn fwy effeithlon ac yn llai dwys o ran defnyddio adnoddau.

### Tystiolaeth gan y Gweinidog

**41.** Eglurodd y Gweinidog fod y darpariaethau mewn perthynas ag ardaloedd rheoli mwg yn cael eu gwneud ym Mil y DU i sicrhau y gellid gwneud newidiadau i'r broses o ddynodi tanwydd awdurdodedig a lleoedd tân eithriedig yn yr amser byrraf posibl.<sup>16</sup>

**42.** Dywedodd y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru yn dal i weithio ar ei Bil aer glân.<sup>17</sup>

### Ein barn ni

Nid oes gennym unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y darpariaethau ar gyfer Cymru yn Rhan 4 o Fil y DU.

O ystyried bod Llywodraeth Cymru eisoes wedi ymgynghori ar Bapur Gwyn ar y Bil Aer Glân (Cymru), rydym yn siomedig iddi ddewis peidio â blaenoriaethu'r Bil ym mlwyddyn gyntaf ei rhaglen ddeddfwriaethol. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, nid yw canlyniad yr ymgynghoriad ar gael. Disgwylwn i'r Gweinidog adrodd yn ôl inni ar y canlyniad cyn gynted ag y bo'n ymarferol. Dylai'r adroddiad gynnwys amserlen ddangosol ar gyfer y camau sy'n weddill o ddatblygiad y Bil.

Disgwylwn i Lywodraeth Cymru gyflwyno'r Bil yn ail flwyddyn ei rhaglen.

---

<sup>16</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 98, Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, 15 Gorffennaf 2021

<sup>17</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 99, Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, 15 Gorffennaf 2021

---

**Argymhelliad 15.** Dylai'r Gweinidog adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar ganlyniad ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y Papur Gwyn ar y Bil Aer Glân (Cymru) cyn gynted ag sy'n ymarferol. Dylai'r adroddiad gynnwys amserlen ddangosol ar gyfer y camau sy'n weddill o ddatblygiad y Bil.

**Argymhelliad 16.** Dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i gyflwyno'r Bil Aer Glân (Cymru) yn ail flwyddyn ei rhaglen deddfwriaethol.



## 7. Rhan 5 - Dŵr

**43.** Mae Rhan 5 yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol bresennol ac yn gwneud darpariaeth newydd mewn perthynas ag adnoddau dŵr; ansawdd dŵr; rheoleiddio cwmnïau dŵr a charthffosiaeth; a phrisio tir mewn ardaloedd draenio mewnol. Mae'n cynnwys darpariaethau i Gymru:

- newid y gofynion gweithdrefnol ar gyfer Cynlluniau Rheoli Adnoddau Dŵr, a galluogi mwy o gydweithredu rhwng gwahanol ymgymerydd dŵr i reoli adnoddau dŵr yn well;
- ei gwneud yn ofynnol i ymgymerydd charthffosiaeth baratoi Cynlluniau Rheoli Draenio a Charthffosiaeth, er mwyn cynllunio'n well ar gyfer rheoli dŵr gwastraff;
- galluogi diweddariadau yn y dyfodol i'r rhestrau o sylweddau â blaenoriaeth mewn deddfwriaeth ansawdd dŵr;
- galluogi gwneud diweddariadau i'r cyfrifiadau prisio sy'n berthnasol i'r dosraniad taliadau bwrdd draenio mewnol mewn is-ddeddfwriaeth, gan ganiatáu ar gyfer creu byrddau draenio mewnol newydd neu ehangu lle mae awydd lleol i wneud hynny.

### Tystiolaeth gan y Gweinidog

**44.** Wrth egluro diben y darpariaethau yn Rhan 5, nododd y Gweinidog:

*"Mae'r drefn reoleiddio ar gyfer y diwydiant dŵr a breifateiddiwyd yn cael ei nodi'n bennaf yn Neddf y Diwydiant Dŵr 1991, ac mewn diwygiadau a wnaed i'r Ddeddf honno (yn enwedig yn 2003 a 2014). Mae nifer o'r cymalau yn y Bil hwn yn ceisio diweddaru gofynion ac adlewyrchu arferion cyfredol e.e. darparu gwybodaeth drwy ddulliau electronig."*<sup>18</sup>

**45.** Mae llythyr y Gweinidog at y Pwyllgor yn cynnwys eglurhad manylach o ddiben y cymalau perthnasol.

**46.** Wrth egluro'r rhesymeg dros y pwerau 'cydredol plws' yn Rhan 5, nododd y Gweinidog:

*"nod y cymal hwn yw adlewyrchu sut yr arferid y pwerau yn y gorffennol. Mae'r cymalau hyn yn ceisio mynd i'r afael â bwlch mewn perthynas â"*

---

<sup>18</sup> Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd at Bwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, dyddiedig 6 Awst 2021

---

*sylweddau â blaenoriaeth a adawyd ar ôl i'r DU ymadael â'r UE. Câi'r pwerau hynny eu harfer gynt o dan adran 2(2) ond caent eu gweithredu hefyd drwy Reoliadau'r Amgylchedd Dŵr (Y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr) (Cymru a Lloegr) 2017. Mae pwerau Gweinidogion Cymru yn cael eu harfer ar gyfer ardaloedd basnau afonydd sy'n gyfan gwbl yng Nghymru ond yn achos y ddwy ardal basn afon sy'n croesi'r ffin (afon Dyfrdwy ac afon Hafren), arferir y pwerau hynny ar y cyd â'r Ysgrifennydd Gwladol."<sup>19</sup>*

## Ein barn ni

Yn ôl cyfaddefiad y Gweinidog ei hun, mae'r darpariaethau yn Rhan 5 yn gymhleth iawn. Maent yn gwneud diwygiadau helaeth i Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 a Deddf Draenio Tir 1991 ac yn darparu pwerau eang i Weinidogion Cymru, gan gynnwys pwerau cyfarwyddo. Mae Rhan 5 hefyd yn cynnwys pŵer 'cydredol plws' i'r Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas ag ansawdd dŵr.

Fel yr amlinellwyd ym Mhennod 3, nid ydym yn credu bod y Gweinidog wedi darparu rhesymeg ddigon cryf dros gynnwys y pwerau 'cydredol plws' mewn perthynas ag ansawdd dŵr ym Mil y DU.

O ystyried yr amser cyfyngedig sydd ar gael ar gyfer craffu, nid oeddem mewn sefyllfa i ystyried y darpariaethau yn Rhan 5 yn fanwl.

Ymrwymodd rhagflaenydd y Gweinidog i ymgynghori â rhanddeiliaid cyn gwneud rheoliadau gan ddefnyddio pwerau o dan Ran 5. Disgwylwn i'r Gweinidog ailddatgan yr ymrwymiad hwnnw.

Nodwn fod Rhan 5 yn cynnwys pwerau cyfarwyddo i Weinidogion Cymru. Cyn cymryd pwerau o'r fath, rhaid i'r Gweinidog egluro pam eu bod yn angenrheidiol. Rhaid iddi hefyd nodi'r meini prawf y bydd Llywodraeth Cymru yn eu defnyddio i benderfynu a ddylid arfer y pwerau hyn.

**Argymhelliad 17.** Dylai'r Gweinidog ymrwmo i ymgynghori â rhanddeiliaid cyn gwneud rheoliadau gan ddefnyddio pwerau o dan Ran 5.

---

<sup>19</sup> Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd at Bwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, dyddiedig 6 Awst 2021

---

**Argymhelliad 18.** Dylai'r Gweinidog egluro pam mae'r pwerau cyfarwyddo yn Rhan 5 yn angenrheidiol, a nodi'r meini prawf y bydd Llywodraeth Cymru yn eu defnyddio i benderfynu a ddylid arfer y pwerau hyn.

## 8. Rhan 6 - Natur a bioamrywiaeth

**47.** Mae Rhan 6, ymhlith pethau eraill, yn cynnwys darpariaethau i fynd i'r afael â datgoedwigo anghyfreithlon mewn cadwyni cyflenwi. O dan y darpariaethau hyn, bydd yn ofynnol i fusnesau sy'n gweithredu yn y DU sefydlu, gweithredu ac adrodd ar system diwydrwydd dyladwy i sicrhau nad yw nwyddau risg i goedwigoedd a gynhyrchir yn anghyfreithlon yn mynd i mewn i'w cadwyn gyflenwi. Mae'r darpariaethau'n gwahardd busnesau rhag defnyddio nwyddau sy'n risg i goedwigoedd nad ydynt wedi'u cynhyrchu yn unol â deddfau lleol sy'n ymwneud â defnydd tir a pherchnogaeth tir.

**48.** Bydd llawer o'r manylion mewn perthynas â gofyniad diwydrwydd dyladwy, gan gynnwys yr amodau sy'n penderfynu a fydd busnes yn ddarostyngedig i'r gofyniad, a threfniadau monitro a gorfodi, yn cael eu nodi mewn rheoliadau a wneir gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

**49.** Mae'r Memorandwm yn egluro bod y darpariaethau hyn, ym marn Llywodraeth Cymru, yn dod o fewn cymhwysedd datganoledig. Mae Llywodraeth y DU o'r farn bod y darpariaethau hyn yn ymwneud â materion a gedwir yn ôl.

### Tystiolaeth gan y Gweinidog

**50.** Dywedodd y Gweinidog fod y mater o ran p'un a yw'r darpariaethau yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd yn eithaf dadleuol. Dywedodd wrth y Pwyllgor:

*"We've argued, the truth is, with DEFRA about whether this is or isn't in the competence of the Welsh Ministers, and DEFRA have rejected our argument and maintain that our consent is not required. So, they don't recognise that we have a formal role in developing the subordinate legislation in this part. However, by way of a compromise, and given the good working relationship we've had all the way through this Bill, we have been able to negotiate policy involvement in the development of the subordinate legislation. So, while that's not what we wanted, it's better than what they were offering."*<sup>20</sup>

**51.** Dywedodd y Gweinidog y byddai DEFRA yn ymgynghori ar gynigion cyn diwedd 2021. Roedd Llywodraeth Cymru yn disgwyl gallu rhoi sylwadau ar yr ymgynghoriad cyn iddo fynd yn fyw i sicrhau ei fod yn ystyried datganoli.<sup>21</sup>

---

<sup>20</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 130, Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, 15 Gorffennaf 2021

<sup>21</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 130, Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, 15 Gorffennaf 2021

---

## Ein barn ni

Rydym yn siomedig bod Llywodraeth Cymru wedi dewis peidio â dilyn gwelliannau i Fil y DU a fyddai'n darparu pwerau i Weinidogion Cymru mewn perthynas â defnyddio nwyddau coedwigaeth, gan adlewyrchu safbwynt Llywodraeth Cymru bod hwn yn faes o gymhwysedd datganoledig. Man lleiaf, byddem wedi disgwyl i Lywodraeth Cymru fod wedi dilyn gwelliannau a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â Gweinidogion Cymru cyn gwneud rheoliadau.

Mae 'cyfaddawd' y Gweinidog o gyfranogiad Llywodraeth Cymru yn natblygiad is-ddeddfwriaeth mewn maes sy'n dod o fewn cymhwysedd datganoledig yn llai na boddhaol. Er y gall Llywodraeth Cymru gael rhywfaint o fudd o'r cytundeb anffurfiol hwn, mae'n eithrio'r Senedd yn llwyr o'r broses graffu.

**Argymhelliad 19.** Dylai'r Gweinidog egluro ymhellach pam y cred ei bod yn briodol defnyddio cytundeb anffurfiol nad yw'n rhwymol i ddatrys yr anghydfod â Llywodraeth y DU ynghylch cymhwysedd deddfwriaethol o ran y darpariaethau mewn perthynas â defnyddio nwyddau coedwigaeth.

## 9. Rhan 8 – Darpariaethau amrywiol a chyffredinol

**52.** Mae Rhan 8, ymhlith pethau eraill, yn gwneud darpariaeth ar gyfer diwygio deddfwriaeth REACH. Mae Rheoliad REACH (a deddfwriaeth ddiwygio'r DU) ar waith ledled y DU ond mae'n ymwneud â chymysgedd o faterion datganoledig a materion a gedwir yn ôl.

**53.** Wrth egluro'r rhesymau dros ddarpariaethau mewn perthynas â REACH, mae'r Memorandwm yn nodi fel a ganlyn:

*"roedd gan Weinidogion Cymru y pŵer o'r blaen i ddiwygio Rheoliadau Gorfodi REACH yng Nghymru o dan Orchymyn Cymunedau Ewropeaidd (Dynodi) (Rhif 2) 2007, er bod y Rheoliadau hynny fel arfer wedi'u diweddarau ar sail y DU gyfan gan Defra gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru. Mae angen pwerau cydredol plws i gynnal y status quo blaenorol a chadw pwerau a arferai fod yn arferadwy gan Weinidogion Cymru o dan gyfraith yr UE."*

### Tystiolaeth gan y Gweinidog

**54.** Gofynnwyd i'r Gweinidog nodi pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o risgiau posibl dargyfeirio rheoliadol o'r UE yn y maes polisi hwn, ac egluro a yw cyfundrefn REACH newydd y DU yn darparu'r un lefel o ddiogelwch â chynllun yr UE y mae wedi'i ddisodli.

**55.** Dywedodd y Gweinidog:

*"Erbyn diwedd y cyfnod gweithredu, roedd rheoliadau REACH y DU a'r UE mor gydnaws â'i gilydd â phosibl. Ers hynny, mae penderfyniadau wedi cael eu gwneud o dan gyfundrefn REACH yr UE a bydd angen gwneud nifer o benderfyniadau o dan system newydd y DU. Wrth ystyried gweithredu o dan REACH y DU, gallwn fanteisio ar y syniadau gorau o'r tu mewn a'r tu allan i'r UE, a gallwn wneud penderfyniadau a fydd yn addas i'r diben yng nghydestun Prydain Fawr. O ganlyniad, bydd unrhyw wahaniaethau rhwng yr EU a'r DU yn cael eu hystyried fesul achos wrth i benderfyniadau gael eu gwneud."*

*Mae egwyddorion sylfaenol REACH wedi cael eu hymgorffori yng nghyfraith yr UE a ddargadwyd, a byddant yn parhau i gael eu diogelu rhag cael eu diwygio, gan ddefnyddio'r pwerau ym Mil yr Amgylchedd. Nid oes dim i atal*

*cyfundrefn newydd y DU rhag rhoi'r un lefel o ddiogelwch â chyfundrefn yr UE."*<sup>22</sup>

## **Ein barn ni**

Fel yr amlinellwyd ym Mhennod 3, nid ydym yn credu bod y Gweinidog wedi darparu rhesymeg ddigon cryf dros gynnwys y pwerau 'cydredol plws' mewn perthynas â rheoliadau gorfodi REACH ym Mil y DU.

O ystyried yr amser cyfyngedig a oedd ar gael ar gyfer craffu, nid oeddem mewn sefyllfa i ystyried y darpariaethau mewn perthynas â deddfwriaeth REACH yn fanwl.

---

<sup>22</sup> Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd at Bwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, dyddiedig 6 Awst 2021

---